



RHEOLWR HWB PECYN SWYDD

DYSGU I NEWID Y BYD

Arweinyddiaeth | Menter | Dysgu | Effaith Gymdeithasol



**ACADEMI MENTRAU
CYMDEITHASOL
SOCIAL ENTERPRISE
ACADEMY**

Gweithredir AMC
Cymru gan

CREU
MENTER
CREATING
ENTERPRISE



Mewn partneriaeth â



Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

AMDANOM NI

Mae Creu Menter, is-gwmni i'r gymdeithas dai Cartrefi Conwy, yn gontractwr adeiladu a chynnal a chadw sy'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cynnal a chadw eiddo i'r sector cyhoeddus a phreifat ac mae'n arbenigo mewn Adeiladu Modiwlaid, yn adeiladu cartrefi ffrâm bren Passivhaus.

Rydym wedi ein lleoli yn ein pencadlys newydd ym Mochdre, ger Bae Colwyn, rydym wedi cael ein henwi'n ddiweddar fel y trydydd cwmni sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, y cwmni sy'n tyfu gyflymaf yng Ngogledd Cymru a'r cwmni adeiladu sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru yng ngwobrau Fast Growth 50.

Fel menter gymdeithasol, rydym yn gallu dangos gwerth cymdeithasol cryf wrth i ni fuddsoddi ein helw yn ôl mewn mentrau cyflogaeth trwy ein Academi Creu Dyfodol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau i'r gymuned leol.

Mae Creu Menter wedi sicrhau'r drwydded i ddarparu rhaglenni dysgu a datblygu arloesol ledled Cymru ar gyfer cwmnïau, mentrau cymdeithasol a chyffff cyhoeddus.

Mae Academi Menter Gymdeithasol Cymru yn defnyddio'r model chwyldroadol a ddatblygwyd yn yr Alban sydd bellach wedi'i ailadrodd ar draws 14 gwlad mor bell i ffwrdd â Chanada, China ac Awstralia ac Affrica.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru sy'n cyflwyno'r rhaglenni yn Ne Cymru.



ACADEMI MENTRAU CYMDEITHASOL WALES

Rydym yn darparu rhaglenni dysgu a datblygu trawsffurfiol i bobl a sefydliadau sy'n galluogi newid cymdeithasol.

Mae ein dull unigryw ar gyfer dysgu wedi helpu miloedd o entrepreneuriaid cymdeithasol a mentrau cymdeithasol i fod yn gryfach ac yn fwy gwydn, gan gynyddu eu heffaith gymdeithasol a'u cynaliadwyedd economaidd.

Mae'r rhaglen a ddarparwn yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gyflawni twf economaidd Cynhwysol, cefnogi busnesau i gydweddu elw a phwrpas a'u galluogi i wneud cyfraniad economaidd yn ogystal â chymdeithasol at gymdeithas.

Rydym yn darparu i fusnesau a sefydliadau ar draws y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector.


Ariennir Academi Mentrau Cymdeithasol Cymru yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

HANES BLAENOROL

Mae'r Academi Menter Gymdeithasol yn sefydliad dysgu a datblygu arbenigol unigryw sy'n cefnogi'r sector menter gymdeithasol yng Nghymru.

Sefydlwyd yn 2004 yn yr Alban, ers hynny mae'r Academi wedi gweithio'n helaeth ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae dros 8000 o ddysgwyr a 1700 sefydliad ar draws 24,000 o ddyddiau dysgu wedi rhannu a dysgu gyda'i gilydd, yn ystod pob cam o dwf personol a sefydliadol.

Gyda hanes blaenorol llwyddiannus yn yr Alban, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol ers 2012 i rannu ein profiad a modelau dysgu yn rhyngwladol.



EFFAITH

93%

yn gwella gallu eu sefydliad i fod yn ymatebol ac addasol i'r farchnad



63%

yn effeithio'n gadarnhaol ar lwyddiant ariannol eu sefydliad

83%

yn cyfathrebu'n fwy effeithiol o fewn eu sefydliad



83%

yn gwella cymhelliant staff



91%

o ddysgwyr yn argymhell y rhaglen i gydweithiwr neu ffrind

PA RAGLENNI YDYM YN EU CYNNIG?

Mae ein rhaglenni ar gael o lefel rhagarweiniol i lefel uwch, yn sefydliadau a busnesau drwy bob cam o dwf.

ARWEINYDDIAETH

Mae rhaglenni arweinyddiaeth yn helpu pobl i gynyddu hunanymwybyddiaeth a chael eglurder am sut maent yn dymuno arwain eu hunain, eu timau a'u sefydliad. Maent yn eich cefnogi chi a'ch sefydliad i ddatblygu eich capasiti arweinyddiaeth a hyder ar bob lefel.

Archwilio fy Arweinyddiaeth

1 diwrnod

Datblygu Fy Arweinyddiaeth

6 diwrnod
ILM Lefel 5

Arweinyddiaeth Uwch

2 ddiwrnod

Arweinyddiaeth Fentrus

1, 2 neu 6 diwrnod

MENTER

Mae rhaglenni menter yn cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol o sefydlu a datblygiad ariannol, i dwf a dyblygiad. Maent hefyd yn cefnogi sefydliadau nid er elw ar eu siwrnai o genhedlaeth dibynnu ar roddwr i incwm cynaliadwy, gan allu cyflawni eu hamcanion cymdeithasol yn y tymor hir.

Cyflwyniad I Fenter Cymdeithasol

1 diwrnod

Deall Menter Gymdeithasol

2 ddiwrnod

Datblygu Eich Menter Gymdeithasol

6 diwrnod

DYSGU

Mae rhaglenni dysgu yn galluogi pobl i gefnogi eu hunain a'u timau drwy hyfforddi, dysgu gweithredol, hwyluso a thrwy hwyluswyr a hefyd dysgu gan ei gilydd. Mae'r rhain yn becynnau sy'n galluogi datblygiad personol a chydlyniant a gwydnwch tîm.

Sgiliau Hyfforddi

2 ddiwrnod

Sgyrsiau Dewr

2 ddiwrnod

Datblygu Sgiliau ar gyfer Diwylliant Hyfforddi

4 diwrnod

EFFAITH GYMDEITHASOL

Mae rhaglenni effaith gymdeithasol yn helpu pobl a sefydliadau i ddeall pwysigrwydd mesur eu heffaith gymdeithasol, a sut i ddangos y perfformiad hwn drwy wahanol fframweithiau a phrosesau

Mesur Effaith Gymdeithasol

2 ddiwrnod

EFFAITH AR Y DYSGWR

Rydym ni'n dylunio rhaglenni i gael effaith ar dair lefel arbennig: Yr effaith ar ddysgwyr, yr effaith ar fusnesau a'r effaith ar gymdeithas

Hunaniaeth – mae **74%** o ddysgwyr yn profi 'dysgu trawsffurfiol' drwy newid dwys yn eu credoau neu eu profiadau o ran eu hunain ac eraill

Meddwl – mae **94%** o ddysgwyr yn ail-fframio eu safbwyntiau a sut maent yn meddwl am bethau

Gweithredu – mae **94%** o ddysgwyr yn gwella'r ffyrdd maent yn gwneud pethau a'u perfformiad

BETH MAE EIN DYSGWYR YN EI DDWEUD

83%

Dywedodd 83% o bobl eu bod yn gallu mynd l'r afael â heriau a chyfleodd yn eu rôl yn well

94%

Dywedodd 94% o'r dysgwyr eu bod yn credo fod arddull dysgu'r SEA un ai yn dda neu'n rhagorol

“ Mae'r cyfuniad o hwyluso arbenigol, dysgu gweithredol, theori a phrofiad a rennir yn bethau pwerus. Rhaid llongyfarch yr Academi ar greu teclyn pwerus ar gyfer dysgu trawsnewidiol, lle diogel i rannu syniadau, gwybodaeth a phrofiad. ”

DYSGU ...NID HYFFORDDI

Rydym yn canolbwyntio ar gyddestun dysgwyr, eu datblygiad personol a'r effaith mae'n ei gael arnynt, yn hytrach na'u cyfarwyddo neu ddweud wrthynt am gysyniadau a theorïau .

HWYLUSO ...NID ADDYSGU

Rydym yn creu amgylchedd ddysgu lle gall gyfranogwyr fagu cyfeillgarwch gyda chyfoedion i adeiladu ar brofiad a chryfderau eraill.

RHAGLENNI ...NID CRYSIAU

Rathe Yn hytrach na bod yn endid sefydlog fel y rhan fwyaf o gyrsgiau, rydym yn darparu rhaglenni sy'n gasgliad o fodiwlau a phrofiadau sy'n ymateb i anghenion y dysgwr dros amser

DYSGU A DATBLYGU ...NID ADDYSG

Rydym yn cefnogi proses o ddatblygiad ymarferol, personol a pharhaus, y gellir ei defnyddio'n syth, yn hytrach na strwythur addysg ffurfiol



AM BWY RYDYN NI'N CHWILIO??

Rydym yn chwilio am unigolyn profiadol, yn ddelfrydol gyda chefnidir datblygu busnes i ymuno â Creu Menter ar adeg gyffrous iawn yn ei ddatblygiad. Mae'r Academi Menter Gymdeithasol wedi bod yn weithredol yng Nghymru ers bron i 12 mis ac rydym yn chwilio am rywun i weithio'n agos gyda Cyfarwyddwr y Bartneriaeth i reoli, datblygu a thyfu'r Academi ar draws Gogledd Cymru.

Bydd y rôl hefyd yn cynnwys cydgysylltu a darparu rhaglenni a bydd yn rôl ymarferol, yn gweithio gyda thîm bach ond effeithiol. Bydd angen i'r unigolyn llwyddiannus fod yn gyfathrebwr a dylanwadwr gwyb.

BETH ALLWN NI EI GYNNIG I CHI?

Mae'r rôl yn cynnig cyfle i fod yn rhan o sefydliad deinamig sy'n cael ei yrru gan werth sy'n gweithio i sicrhau newid parhaol trwy ddysgu a datblygu.

Mae'r rôl wedi'i lleoli ym Mochdre, ger Bae Colwyn. Mae'n rôl amser llawn (37 awr), tymor penodol tan 31ain o Fawrth 2022. Bydd teithio ar draws Gogledd Cymru ac weithiau Cymru yn un o ofynion y rôl.

Buddion

Cyflog Cystadleuol: £ 32,000.

Gwyliau Blynnyddol: 23 diwrnod yn codi i 26 diwrnod ar ôl y cyfnod cymhwyso, ynghyd â gwyliau banc

Cynllun Fflecsi: Yr oriau llawn amser safonol yw 37 awr yr wythnos Llun - Gwener. Mae system amser hyblyg ar gael

Cynllun Pensiwn

Tâl Salwch: Ar ôl y cyfnod cymhwyso

Gofal Iechyd: Darpariaeth iechyd galwedigaethol a chynllun gofal iechyd i gynnwys, ffisiotherapi a darpariaethau eraill

Cynllun Beicio i'r Gwaith



Ariennir y swydd yn rannol gan Lywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



SWYDD-DDISGRIFIAD

1. MANYLION Y SWYDD

TEITL Y SWYDD	Rheolwr Hwb - Academi Menter Gymdeithasol - Cymru
YN ATEBOL I'R	Cyfarwyddwr Busnes a Phartneriaeth
YN UNIONGYRCHOL ATEBOL I	Dim
LLEOLIAD	Mochdre, Conwy, Gogledd Cymru
MANYLION CYFLOG	Contract Cyfnod Penodol hyd at 31 Mawrth 20222 – 37 Awr yr Wythnos

2. PWRPAS

Cydweithio'n agos â'r Cyfarwyddwr Busnes a Phartneriaethau wrth reoli, datblygu a thyfu'r Academi yng Ngogledd Cymru.

Gweithredu'r strategaethau allweddol a bodloni targedau fel y nodir yn y Cynllun Busnes.

Cyflawni swyddogaeth allweddol wrth arwain ym maes gwerthiant a datblygu busnes newydd a mynych ar gyfer yr Academi ledled gogledd Cymru.

Gweithio gyda Hwyluswyr i sicrhau bod rhaglenni yn bodloni anghenion cleientiaid.

3. DIMENSIYNAU Graddfa ac Amrywiaeth

Mae'r Academi Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru yn rhan o sefydliad byd-eang. Creu Menter sy'n meddu ar y drwydded gymdeithasol ar gyfer Cymru ac mae'n gweithredu yn chwe sir gogledd Cymru, a'i bartner strategol, Canolfan Cydweithredol Cymru, yn gweithredu yn yr un ar bymtheg o siroedd yn y De.

Mae'r Academi Menter Gymdeithasol yn darparu rhaglenni dysgu a datblygu (Arweinyddiaeth, Menter, Dysgu ac Effaith Gymdeithasol) i fusnesau, mentrau cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus gan arwain at fwy o wydnwch a thwf ymysg unigolion a sefydliadau ymhob cam datblygiad.

www.socialenterprise.academy/wales

4. BETH YW CREU MENTER?

Mae Creu Menter, rhan o Gartrefi Conwy, yn gontractwr adeiladu a chynnal a chadw, sydd wedi ennill gwobrau, yn gweithio yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cynnal eiddo i'r sector cyhoeddus a phreifat ac yn arbenigo mewn Adeiladwaith Modiwlwr, yn adeiladu cartrefi Passivhaus fframiau pren.



Fel menter gymdeithasol, rydym yn gallu dangos gwerth cymdeithasol cryf gan ein bod yn buddsoddi ein helw yn ôl mewn mentrau cyflogaeth trwy ein Hacademi Creu Dyfodol.

Mae'r Academi yn cefnogi tenantiaid tai cymdeithasol a phobl leol gydag amrywiaeth o wasanaethau cyflogaeth gan helpu'r rhai hynny sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i swyddi i gael cyfleoedd o ran swyddi, hyfforddiant neu wirfoddoli.

Mae Creu Menter hefyd yn meddu ar y drwydded i ddarparu rhaglenni dysgu a datblygu Cymru gyfan arloesol i gwmnïau, mentrau cymdeithasol a chyrrff cyhoeddus. Mae Academi Menter Gymdeithasol Cymru yn cynnig amrywiaeth o raglenni o lefel gyflwyno hyd at lefel uwch gan gefnogi sefydliadau trwy bob cam o'u twf.

5. PRIF GYFRIFOLDEBAU

Datblygu Strategol

Magu a chynnal partneriaethau gyda budd-ddeiliaid allweddol ar draws y sector preifat, menter gymdeithasol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector tai i sicrhau twf a datblygiad yr Academi.

Archwilio cyfleoedd ar gyfer marchnadoedd newydd ar draws Gogledd Cymru.

Cydweithio'n agos gyda'n partner yn Ne Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru a'u Rheolwr Datblygu Busnes.

Gweithio â'r Swyddog Cyfathrebu a Marchnata wrth ddylunio a gweithredu'r Strategaeth Cyfathrebu a Marchnata.

Gweithio'n agos â Thîm Rhyngwladol Academiâu Mentrau Cymdeithasol yn yr Alban, a chymryd rhan yn y gymuned ddysgu fyd-eang.

Datblygu Busnes

Magu a chynnal perthnasau gydag arweinwyr cenedlaethol a lleol allweddol yn y sector preifat, y sector menter gymdeithasol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector tai i ymestyn gweithgareddau dysgu a datblygu yr Academi.

Gwerthu nwyddau'r Academi mewn marchnadoedd presennol a rhai newydd ledled Gogledd Cymru.

Nodi ac ysgrifennu cynigion, ceisiadau a thendrau o ansawdd uchel fel bo angen ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Busnes a Phartneriaeth.

Cynrychioli a darparu cyflwyniadau ar ran yr Academi mewn digwyddiadau, cynadleddau.

Gweithio gyda'r Swyddog Marchnata i nodi a dylunio deunydd marchnata priodol ar gyfer yr Academi, gan gynnwys deunydd ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Llunio dyddiadur o raglenni Dysgu Agored bob blwyddyn yn unol â'r cynllun busnes.

Datrysiadau Dysgu a Datblygu

Sicrhau bod digon o Hwyluswyr cymwys ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu rhaglenni dysgu mewn ymateb i'r galw ac yn unol â'r cynllun busnes.

Monitro gwerthusiad y rhaglenni dysgu a datblygu i sicrhau eu bod yn cael eu darparu i safon uchel gyson ac yn mynd tu hwnt i ddisgwyliadau'r dysgwyr.

Rheoli'r Hwb

Monitro ac adrodd ar dargedau a chyflawniadau'r Academi a sicrhau bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu bodloni'n llwyddiannus.

Goruchwylio cyllideb weithredol ac ariannol ar gyfer yr Academi.

Ymgysylltu gyda'r Gweinyddwr a goruchwylio pob rhaglen i sicrhau ei fod yn llawn.

6. CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL

Helpu i gyflawni amcanion Creu Menter i ddarparu gwasanaeth ardderchog, arloesol sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar gwsmeriaid.

Fel cynrychiolydd Creu Menter, hybu a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.



Hyrwyddo gwerthoedd Creu Menter yn gadarnhaol gan herio ffyrdd traddodiadol o weithio ac ymddygiad neu sylwadau croes mewn modd adeiladol.

Sicrhau y ceisir adborth fel sail i allu gwella gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid a datblygu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o weithio.

Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog, polisïau a gweithdrefnau Creu Menter.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu, adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau, yn enwedig:

- Mentrau iechyd, diogelwch a lles
- Egwyddorion Creu Menter ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cynlluniau rheoli risg
- Arferion rheoli perfformiad.

Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol drwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithiol a chadw data yn ddiogel ac yn y modd cywir.

Gweithio ar y cyd yn ôl y gofyn.

7. CYD-DESTUN GWAITH (yr amgylchedd, y math o gyfarpar)

Bydd deiliad y swydd yn gweithio yn y swyddfa, ond disgwylir iddo/iddi deithio ar hyd a lled Cymru. Mae defnyddio systemau TGCh a thechnoleg yn rheolaidd yn un o ofynion hanfodol y swydd.

8. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU (terfynau a rhyddid)

Mae'r gwaith fel arfer ar eich cyflymder eich hun. Mae deiliad y swydd yn rhydd i benderfynu ym mha drefn y caiff y tasgau eu gwneud, ond disgwylir i bob tasg gael ei chwblhau mewn pryd neu yn ôl y flaenoriaeth a osodwyd.

9. CYFATHREBU (y prif gyfathrebu sy'n digwydd, amllder, pwrpas a dull)

MEWNOL	Rheolwyr, goruchwylwyr a chydweithwyr Creu Menter a Grŵp Cartrefi yn ddyddiol ar e-bost, dros y ffôn, trwy lythyr a wyneb yn wyneb.
ALLANOL	Amryw o fudd-ddeiliaid a phartneriaid allanol ar e-bost, dros y ffôn, trwy lythyr ac wyneb yn wyneb.

10. MEYSYDD CYMHLETH (beth sy'n ymestyn rhywun fwyaf)

Blaenoriaethu llwyth gwaith prysur a fydd, o bryd i'w gilydd, yn cynnwys blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Diwallu anghenion cwmni sy'n datblygu ac yn newid yn barhaus drwy arddangos hyblygrwydd a pharodrwydd i addasu.

1. CYTUNDEB

Llofnod Deiliad y Swydd:

Dyddiad:

Llofnod y Rheolwr Atebol:

Dyddiad:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ariennir y swydd hon yn rhannol gan Lywodraeth Cymru



ACADEMI MENTRAU
CYMDEITHASOL
SOCIAL ENTERPRISE
ACADEMY



Manyleb yr Unigolyn Rheolwr Hwb - Academi Menter Gymdeithasol - Cymru

GWYBODAETH A PHROFIAD	Hanfodol / Dymunol	Dull asesu
Uchelgais i gyflawni targedau gwerthu a rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid	Hanfodol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Hanes blaenorol llwyddiannus mewn datblygu busnes a thyfu sefydliadau	Hanfodol	Cyfweliad
Sgiliau rhagorol o ran rheoli pobl	Hanfodol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Profiad o bennu cyllidebau a chynllunio ariannol	Dymunol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Sgiliau rhagorol o ran cyfathrebu (yn ysgrifenedig ac ar lafar) ac ymwneud â phobl	Hanfodol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Hyder i roi cyflwyniadau effeithiol	Hanfodol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Hygrededd wrth gynrychioli'r Academi gyda chleientiaid a chynulleidfaoedd ar bob lefel	Hanfodol	Cyfweliad
Deall gwerthoedd mentrau cymdeithasol ac ymrwymo iddynt	Hanfodol	Cyfweliad
Pecyn Microsoft Office, Excel ac Outlook (Canolradd)	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Prawf Gallu
Profiad blaenorol o fagu partneriaethau strategol effeithiol, a gweithio'n gydweithredol.	Hanfodol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Profiad o hwyluso rhaglenni arwain, rheoli a busnes, neu ddatblygiad cymunedol	Dymunol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Hyderus, hunangyfeiriedig, gyda safonau ansawdd uchel a'r gallu i gadw ffocws wrth wynebu blaenoriaethau newidiol.	Hanfodol	
Profiad o ddylunio, darparu a gwerthu rhaglenni dysgu a datblygu.	Dymunol	Ffurflen gais / Cyfweliad
Gallu cyfathrebu yn Gymraeg	Dymunol lawn	Ffurflen gais / Cyfweliad

Mae Creu Menter wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau.

Ble bo anabledd yn atal hyn, bydd yn cael ei adolygu gydag ymgeiswyr yn y cam cyfweliad i bennu a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud ar gyfer y gofyniad hwn.





ACADEMI MENTRAU CYMDEITHASOL SOCIAL ENTERPRISE ACADEMY

www.socialenterprise.academy/wales

I YMGEISIO:

E-bostiwch eich CV gyda llythyr eglurhaol yn dangos sut rydych chi'n cwrdd â'r cymwyseddau yn y fanyleb person i vacancies@creatingenterprise.org.uk

Dyddiad cau: 31ain Ionawr 2020

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch â Sharon Jones, Cyfarwyddwr Busnes a Phartneriaeth ar 01492 588 980.



SEA_Wales



SocEntAcademyWales



Social Enterprise
Academy Wales